# Sgiliau Rhifedd

Helpwch eich plentyn i baratoi ar gyfer dysgu mathemateg yn yr ysgol gyda'r gemau, rhigymau a gweithgareddau bob dydd syml hyn. Dewch o hyd i ffyrdd hwyliog o ymwneud â mathemateg gartref, ac yna gweld sut mae'r hwyl yn parhau wrth i'ch plentyn ddechrau'r ysgol.



## Dysgu Rhifo

- Dewch i'r arfer o gyfri popeth gyda'ch plentyn, o hwyaid ar y pwll i'r grisiau i fyny i'r gwely. Gallwch chi gyfri unrhyw beth, fel faint o bolion lamp sydd ar y stryd, sawl tŷ sydd â drws coch, sawl darn o ffrwythau sydd yn y bowlen ac ati.
- Anogwch gyfrif un-i-un dibynadwy trwy ddangos i'ch plentyn sut i bwyntio at bob eitem wrth iddynt gyfrif, neu i symud yr eitemau wrth iddynt gyfrif fel nad ydynt yn cyfrif pob eitem fwy nag unwaith.
- Mae caneuon a rhigymau cyfrif yn dysgu rhifau a threfn i blant, yn ogystal â rhythm.
- Chwarae cyfrif - Chwarae gemau seiliedig ar gyfrif fel *dominos, ludo, snakes a ladders* neu snap rhif.



## ADNABOD RHIFAU

- Chwarae 'chwiliwch y rhif' neu 'helfa rifau' – canolbwyntiwch ar y rhifolion 0-5 i ddechrau, a heriwch eich plentyn i ddod o hyd iddynt ym mhobman – ar glociau, drysau ffrynt, cofrestriadau ceir, cardiau pen-blwydd ac ati.
- Helfa rifau mewn jeli - gwasgarwch rai rhifau plastig mewn jeli a phan fydd y jeli wedi setlo gofynnwch iddynt chwilio am y rhifau yn y jeli.

## SIÂP, MAINT A SWM

- **Ewch ar 'helfa siapiau'** – i weld faint o gylchoedd, sgwariau, petryalau a thrionglau y gall eich plentyn ddod o hyd iddynt. (Ffenestri sgwâr, platiau crwn, a phosteri petryal).
- Siaradwch am siâp a maint gwrthrychau e.e. car mawr, car bach, pêl gron, bwrdd sgwâr, llyfr petryal.
- **Gêm rhoi trefn ar siâp** - gofynnwch i'ch plentyn drefnu llond llaw o wrthrychau yn ôl siâp tebyg. Gall siapiau gynnwys gwahanol ddeunyddiau, o doriadau cerdyn i fotymau. Dechreuwch gyda siapiau sylfaenol fel trionglau, cylchoedd, sgwariau, a phetryalau a cheisiwch gadw pob siâp yn unffurf. Cyflwynwch siapiau unigryw fel y galon, seren, a hirgrwn yn raddol.
- **Gemau Didoli Maint** - Mae'r gêm hon yn cael ei chwarae mewn gwahanol ffyrdd, gyda phob sgil yn canolbwyntio ar faint yn lle newidynnau eraill. Dechreuwch trwy ofyn i'r plant ddidoli blociau o wahanol faint yn ôl maint. Gofynnwch wedyn i blant bach drefnu'r blociau o'r lleiaf i'r mwyaf. Newidiwch yr eitemau i wahanol eitemau, yn dibynnu ar beth sydd gennych yn y cartref.




**Creu Patrymau** - Anogwch eich plentyn i ddod o hyd i batrymau o'i gwmpas, ar ei ddillad ac ati. Cefnogwch eich plentyn i wneud ei batrymau ei hun gan ddefnyddio eitemau fel gleiniau, botymau, blociau lego, anifeiliaid fferm, siapiau e.e. gleiniau – glain coch, glain melyn, glain coch, glain melyn – yn gyntaf gofynnwch i'ch plentyn gopïo eich patrwm, yna i orffen/parhau â'ch patrwm. Gofynnwch "pa liw glain sy'n dod ar ôl y glain melyn?" Pan fydd eich plentyn wedi deall patrwm 2 liw, cyflwynwch drydydd lliw ac ati.

**Rhoi trefn ar Liwiau** – Er bod llawer yn meddwl am fathemateg fel rhifau, mae amrywiadau lliw hefyd yn elfen hollbwysig o fathemateg (maent yn ymdrin â thebygrwydd a grwpio). Gofynnwch i'ch plentyn chwilio drwy'r cartref a'r ardd er mwyn dod o hyd i rywbeth sy'n cyfateb i'r lliw a ddangosir.

**Coginio** - Mae gweithgareddau coginio yn ffefryn gan y rhan fwyaf o blant ac mae dysgu coginio yn sgil bywyd pwysig. Yn ogystal, mae digon o gyfle ar gyfer meddwl mathemategol, gweithgaredd ac iaith. Gall y plant ddewis rysáit syml i'w dilyn a chael eu hannog i gasglu'r cynhwysion cywir a'u pwyso a'u mesur yn gywir. Mae digon o gyfle i gyfri; cynhwysion, llwyau a chynhyrchion, ac am ddefnyddio iaith fathemategol i ddisgrifio pwysau, maint a chyfaint. Mae defnyddio clorian, jygiau mesur, cwpanau a llwyau i fesur cynhwysion yn gywir yn gyfle dysgu gwych hefyd.

**Wrth fynd am dro** – wrth fynd am dro, gofynnwch i blant ifanc gadw llygad a chadw cyfrif faint o adar neu geir y maen nhw'n eu gweld.

**Gosod y bwrdd** – Gellid cyfri wrth osod y bwrdd trwy gyfrif platiau, ffyrc, llwyau, powlenni, ac ati. Gellir cyfrif cadeiriau a matiau lle hefyd. Y peth allweddol yw dangos y rhifau gyda'ch dwylo wrth gyfri, a gofyn i'r plentyn hefyd ddangos faint i chi.

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**Rhoi trefn ar y Golch** - Yn ogystal â helpu i wneud tasg yn y cartref, gall caniatáu i blant bach helpu gyda rhoi trefn ar olchi dillad hefyd fod o fudd i'w datblygiad mathemateg cynnar. Gallant gategoreiddio dillad yn ôl math, lliw neu i bwy y mae'n perthyn. Gallant hefyd helpu i baru sanau – eu helpu i ganolbwyntio ar faint, hyd, lliw neu batrwm, a meithrin dealltwriaeth o'r term 'pâr' (hyd yn oed yn well os oes ambell hosan heb bartner!).

**Chwarae chwaraeon** – Gyda phlant ifanc, ceisiwch basio pêl yn yr ardd a chyfrif sawl gwaith y gallwch chi ei phasio cyn ei gollwng. (Gall hyn weithio'r un mor dda yn y tŷ drwy rowlio sanau mewn siâp pêl. Allwch chi guro'ch sgôr?

**Amser stori!** – Dewch â mathemateg i mewn i amser stori. Ymarferwch ddefnyddio geiriau lleoli wrth edrych ar lyfrau lluniau, gan ofyn cwestiynau fel "Beth sydd y tu ôl i'r bachgen?" a "Beth allwch chi ei weld o dan y bwrdd?". Gall hyn helpu plant ifanc i feddwl am ofod, siapiau a lleoliad. Gallech hefyd geisio cyfrif a chwilio am rifau yn hoff lyfr stori eich plentyn e.e. "Faint o fisgedi allwn ni weld?" neu "Sawl gwaith wnaeth y ci gyfarth?"

# Caneuon Rhif

Un Bys dau fys, tri bys….

Un bys, dau fys, tri bys yn dawnsio,
Pedwar bys, pum bys,
chwe bys, yn dawnsio,
saith bys, wyth bys,
naw bys yn dawnsio,
Deg bys yn dawnsio'n llon.

Clap clap 1, 2, 3…..

Clap, clap, un dau tri,
Clap, clap, un dau tri,
Clap, clap, un dau tri,
Troi a throi ein ein dwylo.

5 crocodeil

Pum crocodeil yn nofio yn yr afon,
Pum crocodeil yn nofio yn yr afon,
Nofiodd un o dan y dŵr -  SPLASH
dim ond pedwar sydd ar ôl.

Pedwar crocodeil…
Tri chrocodeil…
Dau grocodeil…
Un crocodeil…
Does dim crocodeil ar ôl!

Hicori, dicori, doc

Hicori, dicori, doc,
Llygoden lan y cloc,
Mae'n taro un (dau, tri)
I lawr â hi,
Hicori, dicori doc.

Adeiladu tŷ bach.

Adeiladu tŷ bach un, dau, tri
To ar ei ben a dyna ni.

Sbio mewn drwy'r ffenest, beth welwch chi?
Llygoden fach yn cysgu, ust da chi!

Llygoden fach yn cysgu yn y tŷ,
Llygoden fach yn deffro!
I ffwrdd â hi!

Dau dderyn bach ar ben y to.

Dau dderyn bach ar ben y to,
Dyma Jim a dyma Jo,
Cer, i ffwrdd Jim, cer i ffwrdd Jo,
Dere nôl Jim a dere nôl Jo.

Un a dau a thri banana

Un a dau a thri banana,
pedwar, pump a chwech banana,
saith ac wyth a naw banana,
deg banana felen.